COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mehefin 13eg, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Edward O. Griffith, Andrew T. Weir, William B. Williams, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant personol yng nghais cynllunio C18/0431/39/LL – Cais ôl-weithredol ar gyfer dymchwel ac ailgodi tŷ annedd, ynghyd ag estyniad bwriadedig deulawr ac addasu adeiladau allanol – Frondeg, Llanengan, oherwydd fod ei gartref drws nesaf; gadawodd y cyfarfod pan y'i trafodwyd.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 9fed, 2018 yn gywir.

3. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

   Gohiriwyd ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'r Cyfarfod Blynyddol tan heno, yn dilyn derbyn llythyr ymddeoliad Cyng. Gwilym Hughes, Is-gadeirydd y Cyngor ar y pryd, y diwrnod hwnnw. O ganlyniad, cynigiwyd ac eiliwyd fod y Cadeirydd presennol, Cyng. Alun Jones (Ward Llangian), yn parhau yn y gadair a'r Cyng. O. Hefin Roberts (Ward Aber-soch) yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018 – 2019; derbyniodd y ddau.
   Anfonir llythyr at Cyng. Gwilym Hughes i ddiolch iddo am dros ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Ychwanegodd y Cadeirydd y cyflwynodd Gwpan y Cadeirydd iddo. Hysbysir yr Adran berthnasol am y sedd wag.

4. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   a) **Llythyr Pwyllgor yr Harbwr, Aber-soch (a dderbyniwyd heno)**
   Fe'i anfonir at yr Adran Forwrol.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0098/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le – Cwt Glan Môr Ynys Fawr, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'r un maint â'r gwreiddiol ac, er y nodir yng Nghyflwyniad y Datganiad Dylunio a Mynediad mai "...codi un newydd yn lle un a ddinistriwyd yn stormydd gaeaf 2013 – 2014..." yw'r bwriad – dangosir yn glir iawn yn y llun atodedig y deil ar ei draed**
C18/0379/39/LL	Adeiladu estyniad, gosod ffenestr gromen yn y modurdy, defnyddio to fflat fel teras ac addasiadau – Pen y Môr, Lôn Golff, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'n gweddu â gweddill y tai ar y stryd ac mae'n goredrych tai cymdogol. Mynegwyd fod hwn eto yn gais, fel un diweddar ar yr un stryd, yn un lle gallesid troi'r modurdy'n dŷ a cheisio'i werthu maes o law ac, o ganlyniad, awgrymwyd y dylid gosod amod na ellid gwneud hynny, h.y. dylid gwerthu'r tŷ a'r modurdy**
C18/0418/39/LL	**Cynllun Diwygiedig –** Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd ar yr un safle, ynghyd â datblygiadau cysylltiad bach – Cartrefle Bach, Aber-soch **– Cedwir at y sylwadau blaenorol, sef gwrthwynebir oherwydd fod y dyluniad yn anghymarus â'r tai o'i amgylch ac anghytunir â'r hyn a nodir ym Mhwynt 5.3 (tud.13) y Datganiad Cefnogi Cynllunio y buasai'n "...gweddu'r safle'n llwyr â'r ardal o ran graddfa, cymeriad a dyluniad." Prydera'r Cyngor y dymchwelir tai traddodiadol y pentref i adeiladu rhai anghymarus eu siâp, yn arbennig pan nodir mai "tŷ unllawr bychan" yw'r gwreiddiol ac y bwriedir adeiladu un deulawr modern o ffurf (sgwâr) a graddfa addas â sinc (melyn...?)**
C18/0421/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr ochr, ynghyd ag addasiadau a gwelliannau i'r eiddo – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0431/39/LL	**Cais ôl-weithredol** ar gyfer dymchwel ac ailgodi tŷ annedd, ynghyd ag estyniad bwriadedig deulawr ac addasu adeiladau allanol – Frondeg, Llanengan **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – RMJ]**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg. Yn yr un modd, ni dderbyniwyd dim oddi wrth Dîm Gwarchod y Cyhoedd na'r Gwasanaeth Cynllunio parthed toiledau caffi Marchros.

b) **Meddygfa Aber-soch**
Derbyniwyd neges oddi wrth Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gofal Cychwynnol, heddiw, yn dilyn cysylltu ag o eto – ymddiheura am yr oedi cyn ymateb (chwe mis). Mae'n fodlon mynychu cyfarfod ond, nid tan fis Medi oherwydd mae'n cael clun newydd yr wythnos nesaf; penderfynwyd ei wahodd bryd hynny.

c) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Penderfynwyd dosbarthu'r pecynau o amgylch Aber-soch cyn gwyliau'r haf (dyddiad i'w gadarnhau) a gofynnir i Dewi Wyn ddod i dynnu llun er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad. Gwahoddir un neu ddwy o aelodau Merched y Wawr hefyd.

ch) **10. Gohebiaeth**: **a) Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***
Gofynnwyd i gynghorau drefnu sesiynau 'galw mewn' i dderbyn mwy o ymatebion oddi wrth y cyhoedd. Daeth y cyfnod ymgynghorol i ben ddechrau'r mis.

d) **10. Gohebaeth: b) Llywodraeth Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**
Derbyniwyd ateb drannoeth cyfarfod mis Mai yn dweud y penderfynwyd derbyn sylwadau'r Cyngor ar yr uchod o ganlyniad i dderbyn ymateb siomedig y Clerc y'i gwrthodwyd oherwydd ei fod dri munud yn hwyr ar y dyddiad cau.

dd) **10. Gohebiaeth: b) Siôn Gwilym – Mapio'ch Cyngor**
Graddfa 1:15,000 tua 28 modfedd (700mm) o hyd a thua 22 modfedd (550mm) o led o'i argraffu ar ansawdd 300dip yw'r map a gellid argraffu dim ond rhannau ohono neu ei leihau fel bo'r angen; penderfynwyd archebu un am £18.00.

e) **10. Gohebiaeth: c) Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Aber-soch 10k Sensation**
Bu cryn ohebu rhwng gwahanol swyddogion a gwasanaethau parthed y parti a drefnwyd i ddathlu dengmlwyddiant y ras – gwerthwyd tocynnau ar ei gyfer cyn derbyn caniatâd ei gynnal. O ganlyniad i'r gwrthwynebiadau a fu iddo o bob cyfeiriad, bu'n rhaid ei ganslo.

6. **MYNWENT**

a) **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffïoedd Claddu Plant**
Ymddiheurodd y Clerc na sylwodd bod angen mabwysiadu'r uchod; penderfynwyd gwneud a bydd angen cyflwyno cais ad-ennill costau gan Gyngor Gwynedd bob chwarter blwyddyn ariannol pan fydd achos o gladdu plentyn.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Archeb Archwiliad Blynyddol**
Derbyniwyd gohebiaeth ei bod yn amser yr archwiliad blynyddol – £45.00 y Cae Chwarae; cysyllta'r archwiliwr o fewn wyth i ddeng wythnos i hysbysu'r dyddiad archwilio.

b) **Cynrychiolwyr Cwmnïau/Amcanbrisiau Offer**
Gwahoddwyd chwe chwmni – Wicksteed, G.L. Jones, HAGS, Back on Track (traciau beic), Hand Made Places, PlayQuest a Caloo – hyd yma. Derbyniwyd prisiau oddi wrth G.L. Jones, yn cynnwys rhai am bartiau a'u gosod i'r siglenni yn y ddau gae... Dweud y cysylltai eto i drefnu dyddiad arall a wnaeth cynrychiolydd HAGS ond, ni dderbyniwyd un hyd yma. Derbyniwyd llythyr oddi wrth rieni Ysgol Foel Gron trwy law'r Cyng. Dylan Llwyd heno ond, gan nad yw ar raglen y cyfarfod ni ellir ei drafod.

c) **Paentio'r Offer**
Er yr addawodd Melfyn Pritchard baentio'r offer ym mis Ebrill er mwyn cael y tywydd gorau i sychu'r paent, nid oes sôn ei fod am ei ddechrau; cysylltwyd ag o ychydig wythnosau'n ôl hefyd.

ch) **Cymunrodd**
Derbyniwyd cymunrodd o £2,500 trwy ewyllys y diweddar Mrs. Elisabeth Jones, Cedrwydd, Aber-soch, at wella Cae Chwarae Aber-soch a Choed yr Allt; gwerthfawrogai hi a'i diweddar ŵr, Derek Jones, y cae a'r coetir fel lle y gallai teuluoedd ddod i fwynhau eu hunain a hoffent gefnogi'r gwaith parhaus i'w cynnal a'u datblygu. Ysgrifennir i ddiolch yn fawr amdano.

8. **CYFRIFON**

a) **Cytundeb Trydan y Toiledau**
Derbyniwyd anfoneb olaf npower – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – a llythyr yn cadarnhau'r trosglwyddiad a sefydlu debyd uniongyrchol oddi wrth e-on.

b) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Nodir yng nghofnodion Mawrth 15fed Pwyllgor Arfon/Dwyfor ULlC: "...Mae cynghorau â throsiant o £30,000 yn dal i orfod talu'r lwfans. Does dim gorfodaeth ar yr aelodau i'w dderbyn. Ond, os ydynt am ei wrthod, rhaid iddynt anfon llythyr at y Clerc yn nodi hynny. Cafwyd trafodaeth am yr angen o gael ffurflen dempled i nodi a ydynt am ei dderbyn neu ei wrthod. Adroddodd Robin Hughes y byddai cael ffurflen o'r fath yn hwylsuo gwaith y Clerc. Adroddodd y Swyddog Datblygu hefyd, er bod amrywiol ddadleuon yn cael eu trafod gan amrywiol gyrff, ar y funud, dealltir bod y lwfansau yn drethadwy ac y dylid eu trethu drwy'r drefn Talu Wrth Ennill a chadarnheir hynny gan Swyddfa Archwilio Cymru. Golyga hyn waith ychwanegol sylweddol i'r Clerc a thestun pryder i amryw. Bydd angen cyhoeddi pwy sy'n derbyn y lwfans drwy ei roi mewn man cyhoeddus yn yr ardal a hefyd anfon yr wybodaeth i'r Panel Annibynnol."

c) **Cyflog y Clerc**
Derbyniwyd y dyfarniadau cyflog newydd am y flwyddyn ariannol – fe'u trosglwyddwyd i'r Cyng. John G. Jones edrych arnynt a chysylltu â Bacstal Pac.

ch) **Archwiliad Ariannol – Mewnol ac Allanol 2017 – 2018**
Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ac mae popeth yn iawn ar wahân i "*argymell yr ymrwyma'r Cyngor roi sylw i'r risg a ganlyn a chymryd camau priodol i'w liniaru, sef bod yr yswiriant yn annigonol ar gyfer gwerth yr asedau";* penderfynwyd derbyn yr adroddiad yn unfrydol ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc. Anfonir y ffurflen a'r ddogfennaeth berthnasol wedi'u harwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc i BDO cyn Gorffennaf yr ail, sef dyddiad yr archwiliad. Hysbysebwyd yr archwiliad rhwng Mai 21ain a Mehefin 4ydd ar hysbysfwrdd y Cyngor tu allan i Dalafon (Londis) – tynnwyd llun ohono oherwydd ei fod yn un o'r gofynion eleni.

d) **Penodi Archwliwr Mewnol 2018 – 2019**
O ganlyniad i dderbyn adroddiad BDO y llynedd, pan nodai y dylid penodi archwiliwr mewnol flwyddyn ymlaen llaw, penderfynwyd penodi Cyngor Gwynedd yn Archwilwyr Mewnol y flwyddyn ariannol bresennol eto.

dd) **Wayleave Cyn-westy'r Harbwr, Aber-soch**
Derbyniwyd llythyr yn ymddiheuro na thalwyd yr uchod (£1.19) yn dilyn arwyddo'r cytundeb ym mis Rhagfyr 2015 oddi wrth SP Energy Networks. O ganlyniad i'r amryfusedd, ad-delir £3.01 ar Fehefin 28ain am y cyfnod ers arwyddo'r cytundeb ac, yna, fe'i telir yr un pryd â chytundeb Cae Chwarae Aber-soch yn flynyddol ym mis Ionawr.

e) **Rhent Cae'r Plwyf, Mynytho**
Penderfynwyd ysgrifennu at y teulu i ofyn amdano, gan fod digon o amser wedi mynd heibio ers marwolaeth y deilydd.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach am y siale/cwt yn Fronheulog, Lôn Garmon, nac am yr ymholiadau blaenorol a wnaed fisoedd yn ôl bellach.

b) **Apêl Cais Cynllunio Maes Carafannau Tŷ Hir, Mynytho**
Derbyniwyd hysbysiad o'r uchod ac anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.

c) **Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid/Cymysgedd Tai**
Angen sylwadau erbyn Gorffennaf 5ed.

ch) **Coeden ger Maes Coch, Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth y perchennog yn hysbysu, o ran cwrteisi, y bwriedir torri'r goeden fawr sydd gerllaw y giât fochyn ger wal derfyn Maes Coch oherwydd dechreuodd y gwreiddiau dreiddio at sylfaeni'r tŷ. Cysylltodd â Rhys Jones, Uwch Swyddog Bioamrywiaeth Gwynedd, a chadarnhaodd nad yw'r goeden ar dir y Cyngor ac nad oes hawliau gwarchod arni ac, o ganlyniad, nid oedd ganddo wrthwynebiad i'w thorri. Hysbysir y Cyngor o'r bwriad gan ychwanegu na chefnogir torri hen goed am ddim rheswm ond, yn anffodus, nid oes dewis yn yr achos yma.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Ni dderbyniwyd ateb i'r cwestiwn pam na ddefnyddir y peiriannau talu ar ôl eu gosod; mynegwyd y collwyd swm sylweddol o arian yn ystod y tywydd braf diweddar.

b) **Blwch Post Llangian**
Gosodwyd y blwch o'r diwedd (bron i flwyddyn yn ddiweddarach!) yng nghwrtil Neuadd yr Eglwys oherwydd fod y wal yn rhy llydan ac yn creu problemau â gosod y ffrâm sy'n ei ddal; bydd yn ddiogelach i bwy bynnag sy'n postio gan na fydd rhaid sefyll yn y ffordd.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Gwasanaeth Bwrdeistrefol parthed yr uchod er y cysylltodd Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, â'r Rheolwr Gweithredol iddo'n gysylltu'n uniongyrchol.

ch) **Materion yn y Gymuned – Clytio Lôn Cae Du/Ailwynebu Lôn Engan**
Newid Trefn Cyffordd Lôn Gwydryn/Lôn Engan
Derbyniwyd neges oddi wrth Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, yn hysbysu y gohiriwyd y bwriad o newid trefn y gyffordd am y tro. Mae'r gwaith o ailwynebu Lôn Engan a chyffordd Lôn Cae Du yn mynd rhagddo yr wythnos hon a'r nesaf. Deallwyd na dderbyniodd rhai preswylwyr y llythyr rhybudd.

d) **Llinellau Gwyn Sarn Bach**
Anfonir sylwadau ar yr uchod, yn unol â chais Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig; derbyniwyd o leiaf tair cwyn am y drafnidiaeth ddaw o Fwlchtocyn a Chilan, gan y tuedda dorri'r gornel ger y groesffordd a chadw at ganol y ffordd sy'n berygl i'r rhai sydd eisau troi fyny at yr ysgol.

dd) **Parcio Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Derbyniwyd cwyn am barcio gyferbyn ag adwy Y Gragen ar yr uchod a gofyn a fyddai modd ymestyn y cyfnod gwahardd parcio neu ei wneud yn un trwy'r flwyddyn – fe'i anfonwyd ymlaen at y Rheolwr Uned Traffig ac ymatebodd na wrthwynebai newid cyfnod tymhorol y llinellau melyn mewn egwyddor ond, y cedwid at y gwaharddiad tymhorol yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus rai blynyddoedd yn ôl.

e) **Rhaglen Waith mis Mehefin**
Prif doriad gwledig ffyrdd sirol i'w ymgymryd yn ei dro rhwng wythnos olaf mis Mehefin a chanol mis Gorffennaf ac arwisgo Pont Inkerman i Rydgaled (B4415).

f) **Gwerthu Ceir/Cychod/Tractorau yng Nghilfan Tre Warren**
Anghofiwyd ei drafod.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, na Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad. Cysylltir â dau gontractwr, yn hytrach na'r tri a wnaeth y gwaith y llynedd i ddechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl. Derbyniwyd cwynion fod llwybr Fron Green yn wlyb iawn – hysbysir DWO.

12. **RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) – DOGFENNAETH**

Nid oes angen penodi, polisi ac ati, ICO £35.00 Adroddodd y Clerc fod y **c**yfarfod a fynychodd yng Nghaernarfon yn un buddiol – mae gwaith darllen ar y ddogfennaeth (NALC) ac mae angen mabwysiadu polisi ac ati. Dechreuwyd chwynnu a gwaredu ffeiliau yn dilyn derbyn copi o restr cyfnodau cadw yn y cyfarfod. Disgwylir arweiniad pellach oddi wrth Un Llais Cymru, yn arbennig parthed penodi Swyddog Data i'r Cyngor; ni chaiff Clerc fod yn un ar ei gyngor ei hun. Daw'r Rheoliad newydd i rym ar Fai 25ain.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Mai***
Ni argraffwyd dim ohono oherwydd derbyniwyd gohebiaeth eisoes am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol.
ii) ***Ymchwiliad i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol***

Gwahoddiad i gyfrannu at yr uchod trwy dystiolaeth ysgrifenedig neu holiadur ar-lein erbyn dydd Gwener, Awst 24ain.

iii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Rhaglen ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelid yng Nghaernarfon neithiwr – ymddiheuriwyd na allai neb ei fynychu.

iv) ***Rheolau Sefydlog Newydd 2018***
Copi o'r uchod – diweddariad i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a ddigwyddodd ers 2013 ond, yn anffodus, ni hysbyswyd ULlC ymhle'n union y gwnaed hwy. Derbyniwyd cywiriad i Para 21(a) Diogelu Data, sef '**Gall (yn lle bydd)** y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data o ganlyniad i'r newid hwyr iawn a wnaed yn Neddf Diogelu Data 1999, yn dilyn derbyn cydsyniad brenhinol i ddileu'r angen i gynghorau cymuned a thref benodi Swyddog Diogelu Data.

b) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) – Cynhadledd Cymru/Seminar Hyfforddiant**
Copi o raglen Cynhadledd Cymru, ynghyd â manylion seminar hyfforddiant am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a gynhelir yng Ngwesty Sant Siôr, Llandudno, ddydd Mercher, Medi 5ed; cost o £75.00 + TAW os cofrestrir cyn Awst 8fed – hoffai'r Clerc ei fynychu.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0214/39/LL	Cais ar gyfer lleoli deg carafán deithiol ac un sefydlog ar gyfer rheolwr, codi bloc cawodydd a thoiled, ffens atal sŵn, clawdd, ffordd mynediad newydd a llefydd parcio i gapel gerllaw – Frondeg, Llanengan **– Gwrthodwyd**
C17/0884/39/AC	Rhyddhau Amodau 8 o Ganiatâd Cynlllunio C15/1329/39/LL sy'n ymwneud â chyflwyno manylion archeolegol – Neigwl View, ger Murpoeth, Cilan **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/1092/39/LL	Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad newydd **–** Ffermdy
C17/1121/39/CR	Marchros, Penrhyndu, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0108/39/LL	Tynnu Amod 6 Caniatâd Cynllunio C10D/0491/39/LL sy'n amodi'r tŷ i fod yn gartref parhaol – Graianfryn, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0127/39/LL	Adeiladu cwt glan môr yn lle un presennol – Cwt Glan Môr 27, Borth Fawr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0154/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (llechi), 4 (carreg) a 5 (sinc) o Ganiatâd Cynlllunio C16/1673/39/LL – Fras, Mynytho **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C18/0190/39/LL	Adeiladu modurdy ar wahân ar gyfer storio cychod – The View Shop, Bwlchtocyn **– Gwrthodwyd**
C18/0287/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (llechi), 4 (gorffeniad waliau allanol), 9 dulliau amgáu) ac 20 (cynllun tirlunio) o Ganiatâd Cynllunio C14/0172/39/LL – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C18/0227/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr cefn yn cynnwys teras to – Gwelfor, Allt Graigwen, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0274/39/LL	Estyniad unllawr cefn â theras ar y to, estyniad deulawr blaen ac addasiadau i ffenestri gromen – 28 Tan-y-Gaer, Aber-soch **– Gwrthodwyd**

C18/0287/39/YA	Sied amaethyddol i storio peiriannau ac offer – Cim, Bwlchtocyn – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C18/0288/39/LL	Cais Diwygiedig i adeiladu estyniad, codi lefel to a gosod ffenestri gromen – Cyndel, Stád Llwyn Onn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0330/39/LL	Adeiladu modurdy sengl – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0360/39/LL	Adeiladu ffenestr gromen yn yr edrychiad cefn a gosod ffenestr to yn yr edrychiad blaen – 8 Lôn Hawen, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mehefin (Rh/S 002150) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £1.49 (Rh/S 20149 – Talu Wrth Ennill)
b) npower Business – £69.38 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau

a) Toiledau – £421.80 (Tâl Mynediad – £27.00, £47.40, £28.80, £111.40, £81.00, £54.20, £41.50 a £30.50)
b) Y diweddar Mrs. Elisabeth Jones – £2,500.00 (Cymynrodd at Welliannau i Gae Chwarae a Choed yr Allt Aber-soch)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Gorffennaf 18fed, 2018 am saith o'r gloch